GISDA

CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE




HAF 2024

# NEWYDDLEN

## CROESO I NEWYDDLEN HAF 2024 GISDA!

Wrth i'r flwyddyn garlamu yn ei blaen rydym yn awyddus i rannu'r newyddion a digwyddiadau diweddaraf gan GISDA. Mae'r misoedd diwethaf wedi bod llawn digwyddiadau cyffrous, ac yn y rhifyn hwn, byddwn yn sôn am rhai o'r ffyrdd mae GISDA yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc bregus Gwynedd.

## CYFARFOD BLYNYDDOL 2024

**Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol GISDA ym mis Gorffennaf ac roedd yn gyfle gwych i ni edrych yn ôl ar yr holl waith sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn.**

**Rydym mor ddiolchgar i bawb wnaeth fynychu, ac am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn. Diolch i'r siaradwyr am eu cyfraniadau arbennig, ac i bob person ifanc wnaeth siarad mor wych. Cafwyd cyflwyniadau arbennig am ein teithiau diweddar ac roedd yn bleser clywed sut oedd pobl ifanc wedi buddio o'r cyfleoedd yma.**

**Diolch i'n arianwyr am gredu yn ein gwaith, mae eich cefnogaeth yn ein galluogi i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc yng Ngwynedd. Diolch i aelodau'r bwrdd am ein cefnogi, i staff GISDA am eu gwaith ac i'r holl bobl ifanc arbennig rydym yn eu cefnogi.**






# BALCHDER CAERNARFON 2024

GISDA

Ym mis Mehefin cynhaliwyd Balchder yng Nghaernarfon, y cyntaf o'r fath yn arbennig i bobl ifanc o'r gymuned LHDTC+. I gychwyn roedd parêd lliwgar o gwmpas y dref, gyda phawb yn cael eu harwain gan y band lleol, Batala Bangor. Cafwyd areithiau pwerus gan Liz Saville Roberts AS, Dewi Jones ac Anya, un o bobl ifanc GISDA. Roedd perfformiad bywiog gan y band 50 Shêds o Lleucu Llwyd i gloi llwyfan y Maes.

Roedd Llety Arall yn garedig iawn wedi cynnig y gofod am ddim i ni ddefnyddio ar gyfer y prynhawn, ac roedd perfformiadau gwych gan Tesni Hughes, Melda Lois a sioe gomedi gan Beth Jones.

Draw yn yr Hen Lys roedd mudiadau lleol a chenedlaethol yno er mwyn rhannu gwybodaeth am eu gwaith a'r gefnogaeth sydd ar gael. Roedd clwb Llyfrau Lliwgar wedi cynnal sgwrs am gynrychiolaeth mewn llenyddiaeth ym Mhalas Print, ac yn Oriel Carn a'r Galeri roedd cyfle i weld arddangosfeydd gan artistiaid LHDTC+. I orffen y diwrnod roedd gig nos yn yr Hen Lys, gyda pherfformiadau gwych gan Connie Orff, Poison Arches, The Royal Serenity, Sue Denim ac Eadyth.

Mae GISDA'n ddiolchgar iawn i'r holl noddwyr am gefnogi'r digwyddiad, i'r holl wirfoddolwyr ac i bawb ddaeth yno i ddangos eu cefnogaeth ar y diwrnod.











## YMGYRCH TRAFNIDIAETH

Yn ddiweddar mae aelodau o'n Byrddau Pobl Ifanc wedi bod yn gweithio ar eu hymgyrch i gael pasys teithio am ddim i bobl ifanc o dan 25 oed.

Mae'r mwyafrif o bobl ifanc GISDA yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mae'n gallu bod yn brofiad rhwystredig iawn ar adegau, gyda sawl un yn dweud bod tocynnau yn rhy ddrud a'r bysys ddim yn ddibynadwy.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Siân Gwenllian AS am ddod draw i wrando ar bryderon y bobl ifanc, ac i gynghori ni am sut i fynd a'r ymgyrch i'r Senedd.



# GWOBRAU ARFER DA TPAS

Rydym mor falch o Anya am ennill gwobr Tenant Ifanc y Flwyddyn yng Ngwobrau Arfer Da TPAS. Mae brwdfrydedd Anya am hyrwyddo cyfranogiad a chynhwysiant, codi ymwybyddiaeth o hawliau pobl ifanc a chefnogi pobl ifanc mewn angen yn ysbrydoliaeth i bawb, ac rydym mor falch o'i llwyddiant hi.

Roedd yn bleser mawr i ni gyrraedd rownd derfynol categori Llais y Tenantiaid hefyd. Roedd cyrraedd y rownd derfynol yn cydnabod ein hymrwymiad i wneud LLAIS yn ran annatod o'n gwaith, a sicrhau bod llais bob person ifanc yn cael ei glywed a'i werthfawrogi.






GISDA Llais / Voice

# TAITH - EFROG NEWYDD A GWLAD PWYL

Taith

## EFROG NEWYDD

Ym mis Ebrill fe aeth criw o GISDA ar daith arbennig iawn i Efrog Newydd. Roedd y daith yn ran o brosiect ehangach sy'n cymharu profiadau pobl ifanc LHDTC+ yng Nghymru, Efrog Newydd a Gwlad Pwyl. Roedd y daith yn eu galluogi i gymharu eu profiadau a chael dealltwriaeth o fywydau a heriau unigolion LHDTC+ ar draws y byd. Un o uchafwyntiau'r daith oedd ymweld â Chanolfan Ali Forney, sefydliad sydd yn cefnogi pobl bregus LHDTC+ yn yr Unol Daleithiau. Roedd y criw wedi ymweld a rhai o adeiladau eiconig y ddinas fel yr adeilad yr Empire State a dysgu mwy am hanes LHDTC+ Efrog Newydd gyda taith i'r Stonewall Inn.



TU ALLAN I'R STONEWALL INN

## GWLAD PWYL

Ym mis Mai fe aeth criw o bobl ifanc a staff GISDA ar daith i Wlad Pwyl, a dros bum diwrnod roeddent yn teithio ar draws y wlad gan ymweld â thair dinas, Kraków, Łódź a Warsaw. Mae GISDA yn rhedeg prosiect LHDTC+ ar draws ein hybiau yng Ngwynedd, ac roedd y daith yn gyfle i bobl ifanc ddysgu am brosiectau yng Ngwlad Pwyl sydd yn cefnogi pobl ifanc LHDTC+. Cawsant gyfle i grwydro'r dinasoedd hanesyddol, blasu bwyd traddodiadol Pwyleg ac ymweld â rhai o'r atyniadau enwog. Yn Łódź roeddent yn cwrdd ag Anna a Mariusz o Gyfadran y Gwyddorau Addysgol ym Mhrifysgol Łódź i ddysgu mwy am eu gwaith gyda pobl ifanc. Roeddent hefyd wedi ymweld a sefydliadau fel Po Drugie a Warsaw House sydd yn cynnig cefnogaeth arbenigol i bobl ifanc LHDTC+ sy'n ddigartref.



AROS AM DRÊN

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl sefydliadau sydd wedi croesawu ac ysbrydoli pobl ifanc GISDA ac i gynllun Taith Llywodraeth Cymru am ariannu'r daith a rhoi cyfleoedd arbennig i bobl ifanc Gwynedd.

# DATHLU EIN GWIRFODDOLWYR

GISDA
Cyfleon / Opportunities






Drwy brosiect Academi Cyfleon, gall ein pobl ifanc gael mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli, sy'n gyfle gwych iddynt ddatblygu sgiliau, magu hyder a pharatoi ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Fel rhan o ddathliadau Wythnos Gwirfoddoli eleni fe gynhaliwyd parti i ddathlu a diolch i'n holl wirfoddolwyr arbennig. Roedd yn gyfle i bawb ddod at ei gilydd i adlewyrchu ar eu gwaith yn ystod y flwyddyn ac i dderbyn gwobr am eu gwaith. Llongyfarchiadau i chi gyd!

WYTHNOS GWIRFODDOLWYR
Dathlu 40 Mlynedd



## GWOBRAU GWIRFODDOLI GWYNEDD

Roeddem yn falch iawn o weld Jem, un o'n gwirfoddolwyr ifanc arbennig yn derbyn gwobr yng Ngwobrau Gwirfoddoli Gwynedd ym Mhortmeirion. Rydym mor falch o ymroddiad a gwaith caled Jem, a mae wedi bod yn bleser ei weld yn datblygu sgiliau a dod yn fwy hyderus dros y misoedd diwethaf. Da iawn Jem!

## DIWRNOD YNG NGHANOLFAN ASYNNOD MOEL FAMAU



WYTHNOS GWIRFODDOLWYR

Fe aeth criw o bobl ifanc a staff GISDA i Ganolfan Asynnod Moel Famau yn ddiweddar. Fe wnaethant ddysgu am y ganolfan a'r anifeiliaid, a chael mynd a'r asynnod am dro a glanhau'r cwt. Mae gan lawer o'n pobl ifanc ddiddordeb mewn gweithio gydag anifeiliaid felly roedd hyn yn brofiad gwrifoddoli gwych iddyn nhw.


## PARTNERIAETH GISDA A FRÂN WEN

Mae prosiect NABOD yn bartneriaeth hir dymor rhwng GISDA a Frân Wen. Cychwynodd y prosiect yn 2022 ac ers hynny mae ein pobl ifanc wedi bod yn mynchu sesiynau'n wythnosol i ddatblygu'r sioe.



Dros y misoedd diwethaf mae criw Nabod wedi bod yn parhau i ddatblygu stori Nabod/Olion. Byddant yn cysgodi'r criw fydd yn cynhyrchu Olion, ac yn rhan o broses ymchwil a datblygu'r cynhyrchiad. Mae'n gyfle cyffrous iawn, a maent wedi mwynhau cael gweithio ar ddylunio'r set, ysgrifennu, cyfarwyddo a cherddoriaeth y sioe.

## CELF MEWN NATUR/ORIEL YSBYTY GWYNEDD



Mae GISDA Creadigol wedi cydweithio â phrosiect ICAN ar eu prosiect diweddaraf; 'Celf Mewn Natur : Oriel Ysbyty Gwynedd.' Mae'r prosiect hwn yn gwahodd pobl ifanc sy'n gwynebu heriau iechyd meddwl i fynegi eu hunain trwy gelf, gan ganolbwyntio ar thema natur.
Nod y prosiect yw dangos sut gall celf gael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl drwy alluogi pobl i fynegi eu hunain mewn ffordd greadigol. Bydd y gwaith yn cael ei arddangos mewn oriel yn Ysbyty Gwynedd ar ddiwedd y prosiect.

## SUT GALLWCH CHI GEFNOGI GISDA:

### RHOI

**'GIVE AS YOU LIVE'** Give as you Live Online

Codwch arian i GISDA o'ch siopa bob dydd heb unrhyw gost ychwanegol! Sganiwch y Cod QR i ddarganfod mwy:

**JustGiving**

Ewch i'n tudalen Just Giving: **www.justgiving.com/gisda**

**CYFRANNU TRWY 'TEXT'**

Tecstiwch: **GISD41 £X** i **70070** (e.e. **GISD41 £5** i **70070**)



DIWRNOD LLESIANT STAFF - MEHEFIN '24

### FFYRDD ERAILL I HELPU

**Gwirfoddoli:** Rydym yn croesawu gwirfoddolwyr i'n helpu i redeg ein rhaglenni a'n digwyddiadau.

**Codi Arian:** Trefnwch digwyddiad codi arian neu heriwch eich hun gyda sialens codi arian personol.

**Lledaenwch y gair:** Dywedwch wrth eich ffrindiau a'ch teulu am GISDA a'n gwaith.

**Dilynwch ni ar Gyfryngau Cymdeithasol:** Dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol i glywed am ein newyddion, digwyddiadau a chyfleoedd diweddaraf.